

Ysgoloriaethau i Awduron 2017

Adroddiad Cadeirydd y Panel Ysgoloriaethau 2017

Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd Panel Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru. Mae wedi bod yn frainc ac yn her camu i rôl a wnaed mor llwyddiannus gan fy rhagflaenydd Katie Gramich, ond bu'n bleser ymgymryd â'r cyfrifoldeb o ystyried y llwyth o geisiadau ddaeth i law eleni gan awduron Cymru, a medru cefnogi rhai hynod addawol a dawnus. Hoffwn gydnabod gwaith a diolch ar ran y panel ac yn bersonol i Petra Bennett am ei chymorth parod a'i chefnogaeth drylwyr wrth sicrhau bod y broses ddyfarnu ysgoloriaethau o'r dechrau i'r diwedd wedi bod yn hynod effeithiol a phroffesiynol, a'm llywio mor amyneddgar a diogel ar hyd camau'r daith am y tro cyntaf. Yn ogystal â chadeirydd newydd, ymunodd aelod newydd arall â'r panel eleni, sef y beirniad llenyddol a golygydd Catherine Phelps, gan gymryd lle Catrin Beard.

Hon oedd y flwyddyn y derbyniwyd y nifer uchaf erioed o geisiadau am ysgoloriaethau ers i Llenyddiaeth Cymru ddechrau gweinyddu'r cynllun yn 2004. Mae hyn yn arwydd sicr o lewyrch a bywiogrwydd y diwylliant llenyddol yng Nghymru ac yn arddangos ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth y mae Llenyddiaeth Cymru yn gallu darparu i lenorion ein gwlad. Derbyniwyd 151 o geisiadau i'w hasesu eleni (o'i gymharu â 141 yn 2016.) Roedd 141 ohonynt yn rhai Saesneg a 10 yn rhai Cymraeg. O blith y rhain, roedd 83 ar gyfer Ysgoloriaeth Awdur Newydd a 68 ar gyfer Ysgoloriaeth Awdur Cyhoeddedig. Roedd 5 o'r ceisiadau ar gyfer y ddau gategori o ysgoloriaeth hefyd wedi gwneud cais ar gyfer y Gronfa Gefnogi. O'r holl geisiadau, 18 oedd wedi derbyn Ysgoloriaeth yn y gorffennol (gan naill ai'r CCC, yr Academi neu gan Llenyddiaeth Cymru) a da oedd gweld bod 3 chais wedi dod i law gan awduron sydd wedi derbyn mentora drwy Gynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru, sy'n arddangos datblygiad sicr mewn hyder a gallu yr awduron hynny.

Roedd y panel yn falch bod lefel y gyllideb gan y Loteri Genedaethol wedi aros yn gyson ers y llynedd, yn enwedig o ystyried nifer uchel y ceisiadau eleni, ac felly roedd gennym £70,000 i'w rhannu a £4,000 ar gyfer y Cynllun Mentora. Wedi dweud hynny, o ystyried mai £866,000 oedd y cyfanswm y symiau y derbyniwyd ceisiadau ar eu cyfer, roedd y dasg o ddedol a dyrannu yn un hynod heriol, hyd yn oed ar ôl chwynnu'r 151 yn restr fer o 58. Daeth hynny â'r cyfanswm lawr i £358,000 ond roedd y diffyg cyllidol enfawr o

£288,000 ar brydiau'n creu cyfyng gyngor dwys ac hefyd ddiflastod o ystyried disgleirdeb gwaith nifer o'r awduron a'u hangen am gefnogaeth. Yn sgil y cyfyngiadau cyllidebol, bu'n rhaid gwrthod ysgoloriaeth i nifer a oedd yn deilwng o gefnogaeth, yn eu plith rhai llenorion blaenllaw. Bu'n rhaid sicrhau proses lem a theg o flaenoriaethu felly, gyda manylder ac eglurder y ceisiadau, cryfder samplau gwaith o ran sylwedd a gwreiddioldeb, ac angen ariannol oll yn cael eu hystyried ochr yn ochr â safon llenyddol y prosiectau dan sylw.

Mae ochr bositif i'r ffaith bod y dewis yn un anodd wrth gwrs, ac roedd safon y gwaith a gyflwynwyd yn arbennig o uchel eleni. Roedd yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y panel yn nodi gwaith "o safon byd-eang" ; " yn eang ei apêl o'r gynulleidfa academaidd i'r darllenydd cyffredin" a "dawn newydd go iawn." Roedd y rhestr fer yn cynnwys rhai enwau cyfarwydd a chydabyddedig, a oedd yn ymgeisio am ysgoloriaeth (rhai am y tro cyntaf) er mwyn medru arbrofi gyda thema a genre neu gyflawni ymchwil ar gyfer prosiectau newydd, yn ogystal ag enwau hollol newydd, amrywiol eu hoedran, profiad a chefnidir, a oedd yn galw am anogaeth a chefnogaeth i gyflawni potensial eu dychymyg a'u dawn. Doedd dim dwywaith gan y panel bod nifer o'r teipysgrifau a gyflwynwyd yn sicr o ennyn diddordeb cyhoeddwr, o gael croeso gan ddarllenwyr ac o ennill canmoliaeth a chydabyddiaeth gan feirniaid.

Cafwyd ystod eang iawn o genres ymysg ceisiadau eleni - yn straeon byrion disglair, cerddi caeth a rhydd o'r safon uchaf, prosiectau llenyddol aml-gyfrwng cyffrous, bywgraffiadau dadlennol, a llyfrau plant bywiog a dychmygus, ond y nofel ar ei hamrywiol ffurfiau oedd y genre fwyaf cyffredin o bell ffordd â hanner y ceisiadau yn gofyn am ysgoloriaeth ar gyfer ysgrifennu ffuglen. Thema boblogaidd eleni oedd tirwedd a hanes Cymru, gan ysbrydoli mathau hollol wahanol o ymatebion llenyddol o lyfrau taith creadigol i gasgliadau o farddoniaeth i gyfrolau bywgraffiadol a fydd yn bwrw goleuni newydd ar ein perthynas gyda'n hamgylchfyd naturiol a chymdeithasol ac ar adegau amrywiol hanes ein cenedl. Ymhlith y themau eraill a ddaeth i amlygrwydd roedd gwyddonias a ffuglen ffantasi a dystopaidd, gan gynnwys rhai sy'n cynnwys elfen gref o symboliaeth a dychan gwleidyddol. Roedd hanes cythryblus a threisgar hanner cyntaf yr Ugeinfed Ganrif hefyd yn gefndir i nifer o'r gweithiau a gyflwynwyd, gan archwilio y newid cymdeithasol a'r alltudiaeth a ddaeth yn sgil rhyfel a imperialiaeth. Tra bod hynny i'w ddisgwyl wrth i ni gofio a chraffu'n arbennig ar y cyfnod hwn yn hanes Prydain, braf oedd gweld bywyd cyfoes Cymru yn cael ei archwilio gan nifer o awduron, yn enwedig gan rai o'r ceisiadau mwyaf

disglair, â themau ffeministaidd, rhywedd, amddifadedd cymdeithasol ac effaith ôl-ddiwydiannaeth ar ein cymdeithas yn dod i'r wyneb mewn gweithiau dychmygus a chrefftus.

Mae ysgrifennu fel therapi, ac iechyd a iechyd meddwl fel pwnc wedi dod i'r amlwg yn y ceisiadau a dderbyniwyd, ac fe gafodd y panel eu taro gan y nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig a oedd yn chwilio am gefnogaeth wrth, neu wedi gorffen eu hastudiaethau. Mae'n amlwg bod yna grŵp penodol o ddarpar awduron sy'n chwilio am gefnogaeth yn y cyfnod rhwng bod ar gyrsiau ysgrifennu creadigol a dyfod yn awduron proffesiynol, gyda nifer ddim eto'n medru cyrraedd y safon i fod yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth. Nodwedd arall nifer o geisiadau aflwyddiannus eleni oedd gofyn am gyllido teithiau tramor neu ymchwil estynedig neu er mwyn talu rhent a chostau byw o ddydd i ddydd. Er bod awduron â hawl i ofyn am gefnogaeth i gynnal ymchwil neu i brynu amser o'r gwaith, roedd nifer o'r ceisiadau hyn ychydig yn eofn eu naws ac nid oedd modd cyfiawnhau eu gofynion o ystyried allbynnau'r gwariant.

Roeddem fel panel yn falch iawn o fedru gwobrwyo cymaint o awduron eleni er i ni gyd-ochneidio'n drwm wrth orfod gwrthod cefnogi nifer o lenorion dawnus ac addawol yn sgil prinder cyllid. Rydym yn gobeithio y bydd nifer dda o'r rhai na fuodd yn llwyddiannus eleni yn dyfalbarhau ac yn ymgeisio eto, ac yn bwysicach oll, yn medru parhau i ddatblygu eu crefft a chyfrannu i ddiwylliant llenyddol Cymru a'r byd. Fel un sy'n adolygu a beirniadu llenyddiaeth, bu'n brofiad cyffrous i gael y fath gipolwg breintiedig ar y ddawn ac addewid llenyddol sy'n byrlymu i'r brig yng Nghymru ac i lawn sylweddoli pa mor greiddiol a hanfodol yw rôl Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru yn y broses o feithrin y ddawn a'r addewid hynny.

Sioned Williams

Mawrth 2017